

PONTIO

Symud o Fyd Plentyn i Fyd Oedolyn

**Canllaw i Rieni / Gofalwyr Pobl Ifanc 14+
oed sydd ag Anableddau**





Cyflwyniad

Pan fydd plentyn yn symud o un set o amgylchiadau i un arall, bydd tensiynau amrywiol yn bodoli. Ceir sawl cyfnod o newid mawr ym mywyd person ifanc; er enghraifft, symud tŷ, dechrau mynychu'r ysgol ac ati.

Yn ôl y gyfraith, bydd yr holl bobl ifanc yn y DU yn dod yn oedolion ar eu pen-blwydd yn 18 oed. Ond ni fydd unrhyw un yn dysgu sut i fod yn oedolyn dros nos.

“Pontio” yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y cyfnod yn arwain at ac yn ystod y cyfnod pan fydd pobl ifanc y mae ganddynt anableddau yn gadael yr ysgol ac yn symud i fyd oedolyn.

Mae tyfu'n oedolyn yn gallu bod yn gyfnod cyffrous a heriol i bobl ifanc a'u rhieni, gyda nifer o newidiadau a dewisiadau i'w gwneud am y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn broses rhwystredig a brawychus hefyd, yn enwedig os ydych yn blentyn sydd ag anabledd neu'n rhiant/gofalwr iddynt.

Ar ôl ymgynghori gyda rhieni plant a phobl ifanc ar y Fynegai Anabledd yn 2014, amlygwyd bod nifer o rieni yn teimlo'n ofidus yn ystod y cyfnod hwn, heb wybod pa wasanaethau sydd ar gael ar gyfer eu plentyn na sut i fanteisio arnynt. Mae'r cymorth y maent wedi bod yn ei gael gan yr ysgol, grwpiau rhieni a gwasanaethau plant lleol ar fin dod i ben a chael ei ddisodli gan set arall o wasanaethau.

Er mwyn ceisio lleddfu rhai o'r ofnau a'r pryderon, mae'r daflen hon yn dwyn ynghyd gwybodaeth am y mesurau sy'n bodoli a'r gwasanaethau sydd ar gael er mwyn sicrhau cyfnod pontio mor esmwyth ag y bo modd i fyd oedolyn.

Cynllunio Pontio

Bydd y broses bontio yn cychwyn gyda chyfarfod Adolygiad Pontio cyntaf pan fydd eich plentyn ym Mlwyddyn 9. Trefnir y cyfarfodydd gan yr ysgol, ar ôl cael hysbysiad gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a byddwch chi fel rhiant/gofalwr yn cael eich gwahodd i hwn, a byddwch yn rhannu'r un statws â staff proffesiynol er mwyn sicrhau bod eich safbwyntiau a'ch dymuniadau yn cael eu cofnodi.

Bydd amrediad o unigolion o amgylchedd yr ysgol a thu hwnt i'r amgylchedd hwnnw yn dod ynghyd i drafod gwybodaeth ac i'ch cynorthwyo chi a'ch plentyn i gynllunio ar gyfer y broses lle y bydd eich plentyn yn pontio i fyd oedolyn.

Cofnodir y wybodaeth a drafodir mewn Cynllun Pontio. Pan fyddant yn cael eu paratoi yn y lle cyntaf, nid yw'r wybodaeth mewn Cynlluniau Pontio yn sôn am yr hyn sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol yn unig, ac maent yn gallu cynnwys cynlluniau ar gyfer darpariaeth barhaus yn yr ysgol. Yn ystod y cyfarfodydd adolygu dilynol, bydd y cynllun yn tyfu ac mae modd rhoi sylw i'r meysydd canlynol: cyfleoedd addysg a hyfforddiant; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a phob agwedd ar fywyd o ddydd i ddydd, e.e. tai, cyllid, trafnidiaeth ac ati.





Cyfarfod Adolygu Cynllun Pontio

● Pwy fydd yn cael eu gwahodd?

Gallai'r bobl yr estynnir gwahoddiad iddynt i'r cyfarfodydd adolygu gynnwys:

- Y person ifanc
- Chi, y rhiant/gofalwr
- Cynrychiolwyr o Wasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion Bro Morgannwg
- Gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli a gofalu am y person ifanc
- Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) sy'n adnabod a/neu y maent wedi bod yn gysylltiedig ag addysg eich mab/merch
- Gyrfa Cymru
- Unrhyw berson(au) eraill y mae ganddynt wybodaeth berthnasol i'w rhannu

Bydd pawb a fydd yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod yn cael y cyfle i ddarparu adroddiad ysgrifenedig. Bydd yr ysgol yn sicrhau eich bod yn chi yn cael copiâu o'r holl adroddiadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod, ynghyd â rhestr o'r holl bobl a fydd yn mynychu.

● Cyfrannu at y Cynllun Pontio

Gofynnir i bawb gyfrannu at y Cynllun Pontio. Mae gennych chi rôl hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth berthnasol, gan eich bod yn gwybod yr holl agweddau ar fywyd eich mab/merch.

Wrth gynllunio ar gyfer y cyfarfod adolygu, efallai y byddai o gymorth i chi ystyried yr hyn yr ydych yn ei wneud ar gyfer eich mab/merch, a fydd yr anghenion hyn yn newid a'r hyn yr ydych yn ei ragweld ar gyfer eu dyfodol.





Cyfleoedd

Er y trafodir yr holl gyfleoedd amrywiol, ni fydd modd symud ymlaen / rhoi sylw dilynol i'r cyfleoedd hyn nes diwedd y flwyddyn academaidd pan fydd eich mab/merch yn cael eu pen-blwydd yn 16 oed.

Mae'r cyfleoedd y gallent fod ar gael yn cynnwys:

- Person ifanc yn aros yn eu hysgol, lle y bydd modd iddynt barhau gyda'u hastudiaethau mewn amgylchedd cyfarwydd, nes byddant yn 18 neu'n 19 oed.
- Mae modd i berson ifanc adael yr ysgol pan fyddant yn 16 oed a mynychu coleg lleol neu goleg preswyl fel myfyriwr dydd er mwyn parhau gyda'u hastudiaethau (sy'n golygu y byddant yn dod gartref bob nos). Os na fydd modd i goleg lleol fodloni eu hanghenion, efallai y bydd modd dewis mynychu coleg sy'n bellach i ffwrdd, fel myfyriwr preswyl. Bydd angen trafod yr holl geisiadau a'r trefniadau cyllido ar gyfer colegau preswyl, a'u cytuno gyda'r asiantaethau perthnasol cyn i geisiadau gael eu cyflwyno.
- Gallai person ifanc fanteisio ar gyfleoedd yn ystod y dydd lle y bydd modd iddynt ganlyn pob math o weithgareddau diddorol, lle y bydd modd iddynt wneud ffrindiau newydd, gwneud dewisiadau, meithrin eu hannibyniaeth eu hunain a dod yn aelod o'r gymuned sy'n cael eu gwerthfawrogi.
- Mae modd i berson ifanc droi at fyd gwaith trwy gyfrwng rhaglen hyfforddi neu gyflogaeth â chymorth. Ceir nifer o sefydliadau y mae modd iddynt eu helpu i sicrhau cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth â chymorth mewn sefyllfaoedd gwaith go iawn.
- Os yw'ch plentyn dros 16 oed ac yn gymwys i gael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion, gallent ystyried

Cyfleoedd (parhau)

Taliadau Uniongyrchol. Mae hwn yn swm rheolaidd o arian a fydd yn galluogi eich mab/merch i brynu ac i drefnu eu gofal eu hunain. Mae modd i daliadau uniongyrchol hyrwyddo annibyniaeth, ond hefyd, maent yn rhoi cyfrifoldebau. Os bydd person ifanc dan 16 oed, telir y Taliadau Uniongyrchol i chi fel arfer, sef y rhiant/gofalwr. Pan fydd person ifanc yn cael eu pen-blwydd yn 16 oed, mae modd iddynt gael y taliadau hyn drostynt eu hunain pan fo hynny'n briodol, er mwyn caniatáu amser i brynu'r gwasanaethau yr aseswyd bod eu hangen arnynt.

Os hoffech gael gwybodaeth bellach am Da modd i chi lawrlwytho copi o'r daflen ffeith Uniongyrchol:

www.valeofglamorgan.gov.uk/socialcarein
a dewis 'Taflenni'.





Gwasanaethau Cymorth Ychwanegol

Yn ogystal â chynllunio ar gyfer dyfodol person ifanc, dylech fod yn meddwl hefyd am unrhyw sefydliadau a gweithwyr proffesiynol y gallent fod ar gael i gynnig cymorth. Dyma rai enghreifftiau o wasanaethau amrywiol y gallent fod o gymorth i chi trwy gydol y Broses Bontio.

● Budd-daliadau

Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed, efallai y bydd modd iddynt hawlio budd-daliadau drostynt eu hunain.

Cysylltwch â Chyngor ar Bopeth ar 03444 77 20 20 i wneud apwyntiad er mwyn cael cyngor ac er mwyn cael gwybod am yr hyn y gallech fod yn gymwys i'w gael.

www.citizensadvice.org.uk

● Gyrfa Cymru

Gyrfa Cymru yw'r gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad am yrfaeoddi i bobl o bob oed. Maent yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau partner er mwyn cynorthwyo pobl ifanc y mae ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig.

O Flwyddyn 9 ymlaen, bydd y Cynghorydd Gyrfaoedd yn gweithio gyda'ch mab/merch yn yr ysgol, gan gynnig sesiynau grŵp ac arweiniad gyrfaoedd unigol pan fo hynny'n briodol. Bydd y Cynghorydd Gyrfaoedd yn helpu'ch plentyn i symud ymlaen o'r ysgol pan fydd yr adeg yn dod. Maent yn croesawu'r cyfle i gydweithio'n agos gyda rhieni, athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn rhoi'r cymorth i ddisgyblion y mae ei angen arnynt.

www.careerswales.com Ffôn: 0800 028 48 44



Caerdydd a
Bro Morgannwg
Cardiff & Vale



Gwasanaethau Cymorth Ychwanegol (parhau)

● myCVinAction.com

Mae'n uchelgais gan nifer o bobl ifanc y mae ganddynt anableddau dysgu i sicrhau cyflogaeth, felly mae myCVinAction.com yn ffordd o gynorthwyo eu breuddwyd o gael gwaith, gan wrthsefyll rhai rhagdybiaethau sydd gan gyflogwyr pan fyddant yn cyflogi pobl y mae ganddynt anabledd, trwy ddangos gallu unigolyn i gyflawni swydd mewn fideo. Am wybodaeth, cysylltwch â nhw ar:
01443 218 443 neu anfonwch e-bost at: enquiries@mycvinaction.com
or visit www.mycvinaction.com

● Tai

Mae adran Dai y Cyngor yn gyfrifol am roi sylw i anghenion pobl ifanc anabl trwy gyfrwng tai â chymorth, bywyd bob dydd trwy gyfrwng gwasanaethau megis addasiadau i'r cartref, cyngor a grantiau tai. Am wybodaeth bellach ynghylch tai, cysylltwch â nhw ar 01446 709 567 neu trowch at:
www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/housing/housing.aspx

● Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

Mae gwirfoddoli yn eich helpu i ddysgu sgiliau newydd, i gyfarfod pobl newydd, ac mae'n helpu'ch gyrfa wrth i chi wneud rhywbeth da ar yr un pryd. Trwy gyfrwng Gwobr Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV), byddwch yn cael Gwobr gydnabyddedig sy'n dangos sawl awr yr ydych wedi eu treulio yn gwirfoddoli, pryd, ble...ac mae'n ffordd wych o ddangos yr hyn yr ydych wedi'i wneud ac mae modd i chi ei ddefnyddio pan fyddwch yn ysgrifennu eich CV neu'n llenwi ffurflen gais am swydd. Ffoniwch 01446 741 706 Anfonwch e-bost at enquiries@gvs.wales www.gvs.wales



Gwasanaethau Cymorth Ychwanegol (parhau)

● Hamdden

Mae'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd hamdden yn gallu bod yn rhan bwysig o fywyd unrhyw unigolyn. Felly, mae'n bwysig bod y Cynllun Pontio yn cofnodi uchelgais a diddordebau hamdden person ifanc, a bod cynlluniau priodol yn cael eu gwneud. Ceir Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd sy'n gallu rhoi gwybodaeth i chi am yr holl weithgareddau chwaraeon sydd ar gael i bobl ifanc anabl. Am wybodaeth bellach neu os hoffech gael copi o'r Cyfeiriadur Chwaraeon Anabledd cysylltwch ag:

SLJones@valeofglamorgan.gov.uk Tel: 01446 704 728

www.valeofglamorgan.gov.uk/disabilitysport

● Cyflogaeth â Chymorth Quest

Mae Pontio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu; er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith, eu huchelgais, eu hyder a'u hunan-barch, ac yn y pen draw, bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen i gael cyflogaeth yn yr economi leol. Mae'r prosiect ar gyfer oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed y mae ganddynt Anhawster Dysgu neu Angen Addysgol Arbennig. Cysylltwch â'r Swyddog Pontio am wybodaeth bellach ar 029 2037 3305

● Gwasanaethau Ieuentid

Ar draws Bro Morgannwg, cynigir nifer o weithgareddau ieuentid i bobl ifanc. I gael gwybod mwy, trowch at:

www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/youth_service/.aspx

Ffôn: 01446 709 373





Mynegai Anabledd

Cydweithio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl dan 18 oed.

Os oes gan eich plentyn gyflwr neu nam sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd, mae modd i chi eu hychwanegu i'r Fynegai Plant a Phobl Ifanc Anabl (Mynegai Anabledd).

Diben y Fynegai Anabledd yw sicrhau bod teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anableddau yn cael gwybod y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf, y gallai fod o fudd i'ch plentyn. Trwy gofrestru, byddwch yn cael cylchlythyr – y Mynegai. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo darparwyr gwasanaeth wrth iddynt gynllunio eu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Mae'n cynnig darlun mwy eglur o niferoedd y plant a'r bobl ifanc anabl, a thrwy gyfrwng cymorth ar ffurf cyllid gan Grant Teuluoedd yn Gyntaf, mae'n ein galluogi i gydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn helpu i gydlynu gwasanaethau mewn ffordd well.

Mae modd i ni wneud hyn gyda'ch help chi. Trwy gynnwys eich plentyn yn y Fynegai Anabledd, mae modd i ni ystyried gofynion cymaint o blant ag y bo modd.

Am wybodaeth bellach, darllenwch daflen 'Mynegai Plant a Phobl Ifanc Anabl'.

Cysylltwch â Gweinyddwr y Fynegai Anabledd ar 01446 704 736 neu disabilityindex@valeofglamorgan.gov.uk Trowch at www.valeofglamorgan.gov.uk/disabilityindex lle y mae modd i chi weld Hysbysfwrdd y Fynegai er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am Beth sydd Ymlaen... yn y Fro.





Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Gwasanaeth cyngor a gwybodaeth un stop i deuluoedd y mae ganddynt blant 0-20 oed ym Mro Morgannwg.

Gwybodaeth fanwl a dibynadwy ynghylch:

- Gofal plant, gan gynnwys gofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau
- Gweithgareddau a chynlluniau yn ystod y gwyliau
- Help ariannol tuag at ofal plant a budd-daliadau i deuluoedd
- Gwasanaethau cymorth i deuluoedd
- Addysg, iechyd a lles
- Gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i blant sydd ag anableddau
- A llawer mwy...

Mae gennym Gyfeiriadur Cymorth i Deuluoedd a Chyfeiriadur Gofal Plant, Chwarae a Hamdden ar-lein: www.valeofglamorgan.gov.uk/fis

Neu, cysylltwch â GGD yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau: 01446 704704 fis@valeofglamorgan.gov.uk



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro



@ValeFIS

**Mae'r Fynegai Anabled yn rhan o'r
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.**



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

Canllaw i Rieni / Gofalwyr Pobl Ifanc 14+ oed sydd ag Anableddau



Tîm Iechyd Plant ac Anabledd

Mae gan y Tîm Iechyd Plant ac Anabledd (CHAD) yng Nghyngor Bro Morgannwg ddau Weithiwr Cymdeithasol Pontio.

Pan fydd plentyn y mae Tîm CHAD yn ymwybodol ohonynt yn cyrraedd 15 oed, fe'u trosglwyddir i Weithiwr Cymdeithasol Pontio Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Pontio yn cael cyswllt gydag unrhyw wasanaethau sy'n darparu cymorth – ysgolion, Gyrfa Cymru a Gwasanaethau i Oedolion. Pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed, bydd y cyswllt gyda Thîm CHAD yn dod i ben, ac os bydd diagnosis y plentyn yn bodloni meini prawf cymhwyso y Gwasanaethau i Oedolion, byddant yn trosglwyddo i'r Gwasanaethau i Oedolion. Yn y cynllun pontio, caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch y cynlluniau y bydd angen eu newid efallai os bydd y person ifanc yn trosglwyddo i'r Gwasanaethau i Oedolion.

Os na fydd y Tîm CHAD eisoes yn ymwybodol o blentyn sydd ag anabledd, ac mae rhieni yn dymuno cael cymorth ar gyfer eu plentyn ar ôl iddynt gyrraedd 15 oed, mae modd iddynt gysylltu â Thîm CHAD. Os na fydd anghenion plentyn yn bodloni'r meini prawf, mae modd manteisio ar gymorth o Faes Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf.

I fanteisio ar y Tîm Iechyd Plant ac Anabledd, cysylltwch â CIV ar 01446 725202.



Gwasanaethau i Oedolion

Lleolir Tîm Pontio y Gwasanaethau i Oedolion yn Nhîm Cymorth Cymunedol y Fro ac mae'n cynnwys Rheolwr Ymarferwyr a dau weithiwr cymdeithasol.

Nod y tîm pontio yw cynorthwyo oedolion ifanc y mae ganddynt anabledau, wrth iddynt symud o wasanaethau Plant i wasanaethau Oedolion, a'u cynorthwyo i fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth a'u cyfleoedd mewn bywyd.

Maent yn gweithio gydag oedolion ifanc 18-25 oed y mae ganddynt Anabledd Dysgu a/neu anghenion iechyd cymhleth, er mwyn cynnig proses ddi-dor wrth iddynt symud o wasanaethau Plant i wasanaethau Oedolion. Pan geir angen iechyd a nodwyd, mae modd gwneud cyfeiriadau i'r tîm Iechyd Anabledd Dysgu sy'n cynnwys therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, therapi laith a Lleferydd, Seicoleg, nyrsys Anabledd Dysgu a Seiciatreg.

Bydd gweithwyr cymdeithasol pontio gwasanaethau oedolion trwy gyfrwng tîm cymorth cymunedol y Fro yn dod yn 'eraill sy'n gysylltiedig' pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 16 oed, a byddant yn ymgymryd â'r gwaith rheoli achos pan fyddant yn 18 oed os bydd yr oedolyn ifanc yn bodloni meini prawf tîm cymorth Cymunedol y Fro.

Pan fo angen sylfaenol y person ifanc yn anabledd corfforol, byddai gweithiwr o'r tîm Gofal Hirdymor yn cyflawni rôl eraill sy'n gysylltiedig pan fyddant yn cyrraedd 16 oed, gan ymgymryd â'r gwaith rheoli achos pan fyddant yn 18 oed.

Bydd gweithwyr cymdeithasol pontio yn parhau i fod yn gysylltiedig nes byddant yn 25 oed.

I fanteisio ar Dîm Pontio y Gwasanaethau i oedolion, cysylltwch â CIV ar 01446 725202.



Codi Tâl am Wasanaethau

Pan fydd oedolyn ifanc yn cael eu Pen-blwydd yn 18 oed, ac maent yn cael gwasanaeth y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu amdano, cynhelir asesiad ariannol o'u gallu i gyfrannu tuag at gost y gwasanaeth hwnnw.

Cynhelir yr asesiad ariannol gan ddefnyddio rheoliadau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a chan Bolisi Codi Tâl Cyngor Bro Morgannwg. Cysylltwch â'r Swyddogion Asesu Ariannol am ragor o wybodaeth ar: 01446 704890 /704706/ 704747.



Gwasanaeth Gofal ar gyfer y Tymor Hwyr

Lleolir y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir (LTCS) yn Nhŷ Jenner, Y Barri. Maent yn gweithio gyda phobl 18+ oed yr aserir eu bod yn gymwys i gael Gwasanaethau Oedolion dan FACS (Mynediad Teg i Wasanaethau Cymunedol).

Maent yn gweithio gydag unigolion y mae ganddynt anabledau corfforol a neu/anghenion iechyd cymhleth. Bydd gweithiwr Cymdeithasol yn gweithio gyda Gweithiwr Cymdeithasol Iechyd ac Anabledd y Plentyn cyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed, er mwyn eu cynghori a'u cynorthwyo wrth iddynt symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Bydd gweithiwr cymdeithasol LTCS yn cyfrannu at y cynllun Pontio ac yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Addysg ac Iechyd er mwyn darparu gwasanaeth di-dor ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed.

Mae'r gwasanaethau y mae modd iddynt eu darparu yn cynnwys:

- Cymorth gyda gofal yn amgylchedd y cartref
- Gweithgareddau cymdeithasol yn y gymuned a gwasanaethau dydd
- Trefnu taliadau uniongyrchol
- Cyfeiriadau at Wasanaeth Adsefydlu Cymunedol y Fro (VCRS) am ffisiotherapi neu therapi galwedigaethol yn ôl y gofyn
- Cynorthwyo gyda lleoliadau preswyl a lleoliadau addysg bellach

I fanteisio ar y Gwasanaeth Gofal Tymor Hwyr, cysylltwch â CIV ar 01446 700111.



Cyngor Awtistiaeth i Oedolion

Mae Cyngor Awtistiaeth i Oedolion yn wasanaeth gwybodaeth a chyfeirio a gynlluniwyd ar gyfer oedolion sydd ag Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uchel neu Syndrom Asperger, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau cymorth traddodiadol.

Nid oes angen eich bod wedi cael diagnosis cyn cysylltu â Chyngor Awtistiaeth i Oedolion.

Mae'r tîm yn gyfeillgar ac yn agos-atoch, gan gynnig un pwynt cyswllt er mwyn cyfeirio unigolion at y gwasanaethau priodol sydd wedi'u lleoli yn eu cymuned.

Maent yn trin yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth fel unigolion, gan ddeall bod troi at y wybodaeth gywir yn gyflym yn gallu bod yn heriol.

Mae Cyngor ynghylch Awtistiaeth i Oedolion ar gael ym Mro Morgannwg ac yng Nghaerdydd.

Mae modd i chi fanteisio ar y gwasanaeth trwy lenwi eu Ffurflen Ymholiad Cyngor Awtistiaeth i Oedolion ar-lein, neu ffonio 01446 731105 neu anfon e-bost at adultautismadvice@valeofglamorgan.gov.uk

Swyddog Arweiniol Prosiect Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth Bro Morgannwg yw Keith Ingram, ac mae modd cysylltu ag ef trwy anfon e-bost at keingram@valeofglamorgan.gov.uk

Adult Autism Advice



Cymorth i Oedolion Awtistaidd



Sefydliadau Defnyddiol

Efallai y bydd y sefydliadau canlynol yn gallu cynnig cyngor a chymorth i chi.

● SNAP Cymru

Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig i Gymru. Mae'n elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth i deuluoedd sy'n cynnwys plant sydd ag anawsterau dysgu neu bobl y mae ganddynt anghenion addysgol arbennig. Mae pontio yn un o'r meysydd niferus y mae modd i SNAP Cymru gynnig cyngor i chi amdano.

Ffôn: 029 2038 4868 E-bost: cardiff@snapcymru.org

● Mencap Cymru

Maent yn darparu cymorth fel bod modd i bobl sydd ag anabledd dysgu fyw bywyd mor annibynnol ag y maent yn ei ddymuno. Maent yn cynnig cyngor a gwybodaeth i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan anabledd dysgu.

Ffôn: 0808 808 1111 E-bost: helpline.wales@mencap.org.uk

● Contact a Family

Mae'n cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth i deuluoedd sy'n cynnwys plant anabl, beth bynnag fod eu cyflwr neu eu hanabledd. Maent yn paratoi ystod eang o wybodaeth i deuluoedd yng Nghymru am faterion megis anghenion addysgol arbennig, delio gyda dyled, a phontio.

Ffôn: 029 2039 6624 E-bost: cymru@cafamily.org.uk

● Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro

Mae'n cynnig canllaw cynhwysfawr i wasanaethau, cyfleoedd a gwybodaeth i blant anabl, pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalywyr yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Ffôn: 029 2022 7800 E-bost: admin@parentsfed.org

Lawrlwythwch eu canllaw 'Ble rydych yn Sefyll' o

www.wherestand.org